# PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD IAU, 8 RHAGFYR 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Owen Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derbyshire, Green, Lancaster, Lewis, Lloyd Jones, Jackie Parry a/ac Wood |

## 45 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd De’Ath.

## 46 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim datganiadau buddiannau

## 47 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2022 fel cofnod cywir.

## 48 : CAERDYDD UN BLANED, DIWEDDARIAD BLYNYDDOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi cyfle i graffu ar adroddiad Adolygiad Blynyddol o Strategaeth Caerdydd Un Blaned Ddrafft a oedd i’w ystyried gan y Cabinet ar 15 Rhagfyr 2022.

Cafodd yr aelodau wybod bod y Cabinet wedi datgan argyfwng hinsawdd yn 2019. Mewn ymateb fe gafodd Strategaeth Caerdydd Un Blaned (CUB) ei datblygu a'i chyhoeddi yn 2021 ynghyd â chynllun gweithredu. Mae'r Strategaeth yn nodi sut y bydd y Cyngor yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd gyda’r nod o wneud Caerdydd yn garbon niwtral erbyn 2030.

Ers ei chyhoeddi mae'r weinyddiaeth newydd wedi cyhoeddi eu Strategaeth 'Gryfach, Tecach, Gwyrddach' sy'n gosod newid yn yr hinsawdd wrth galon agenda'r Cyngor. Ymhellach at hynny, ym mis Medi 2022, bu i'r Cyngor drafod a phasio cynnig mewn perthynas ag anghyfiawnder hinsawdd oedd yn galw ar y Cyngor i fod yn fwy 'cyfrifol yn fyd-eang' wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Adroddiad y Cabinet yw'r adolygiad cyntaf o strategaeth a chynllun gweithredu CUB ac mae'r adroddiad yn nodi cynnwys y dadansoddiadau Carbon Gweithredol blynyddol cyntaf yn dod o uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus carbon niwtral yng Nghymru.

Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r prif faterion a nodwyd yn adroddiad y Cabinet a'r cynnydd a wnaed yn erbyn cynllun gweithredu CUB. Daeth adroddiad y Cabinet i'r casgliad fod cynnydd da wedi'i wneud ond bod nifer o faterion sydd dal angen mynd i'r afael â nhw. Mae hefyd yn ansicr pa gymorth cyllid gan y Llywodraeth fydd ar gael i'r sector cyhoeddus a domestig i alluogi datgarboneiddio

adeiladau. Yn ogystal, mae materion byd-eang wedi effeithio ar argaeledd a phris cydrannau a cherbydau i symud ymlaen gydag elfennau o'r strategaeth.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Caro Wild, Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Gareth Harcombe, Rheolwr Gweithredol - Ynni a Chynaliadwyedd i'r cyfarfod. Fe wnaeth y Cynghorydd Wild ddatganiad a derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ar Adolygiad Blynyddol Caerdydd Un Blaned 2022.

Dechreuodd y Cadeirydd y drafodaeth ar yr eitem hon. Cafodd yr Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau. Mae’r drafodaeth hon wedi ei chrynhoi isod:

- Gofynnwyd i swyddogion ymateb i sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â diogelu bio-amrywiaeth yn y Ddinas. Gofynnodd aelodau beth oedd yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddiogelu'r bio-amrywiaeth presennol yn y ddinas a beth arall y gellid ei wneud o ystyried yr adnoddau sydd ar gael. Dywedodd swyddogion fod llawer o waith yn cael ei wneud ar draws gwasanaethau o ran diogelu bio-amrywiaeth. Fodd bynnag, tra bod nifer o'r meysydd oedd yn rhan o'r Strategaeth CUB wedi croesi dros fio-amrywiaeth, er enghraifft SDCau, amddiffynfeydd llifogydd a Choed Caerdydd, barnwyd mai'r her oedd lleihau carbon. Ar wahân i hynny, roedd strategaeth a phwerau bio-amrywiaeth i wella bio-amrywiaeth yn eu lle. Roedd swyddogion yn derbyn y gallai Strategaeth CUB fod yn gliriach wrth gyfeirio'r cysylltiadau hynny.

- Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet wneud sylw ar yr awgrym bod Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar fannau gwyrdd diogelu yn cael ei gyflwyno. Dywedodd y Cynghorydd Wild fod disgwyl i'r Cynllun Datblygu Lleol newydd (CDLl) gael ei gefnogi gan CCAau cryf sy'n darparu amddiffyniad ar gyfer mannau agored gwyrdd o ystyried amcanion a gweledigaeth y CDLl newydd. Nod menter Coed Caerdydd y Cyngor yw cynyddu canopi o 19% i 25% a bydd hyn ond yn bosibl os bydd tir yn cael ei neilltuo ar gyfer y diben hwnnw drwy warchod mannau agored gwyrdd a thrwy ychwanegu ato.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd mannau agored gwyrdd yn y ddinas yn cael eu defnyddio i wrthbwyso allyriadau carbon. Dywedodd swyddogion fod gwrthbwyso yn cael ei ystyried yn y strategaeth, ond dim ond o ran tir y Cyngor.

- Gofynnwyd i swyddogion roi rhagor o fanylion am y newidiadau polisi Adnoddau Dynol arfaethedig y cyfeirir atynt yn y cyflwyniad. Cafodd yr aelodau wybod y gallai hyn, o bosib, ymwneud â cheisiadau lwfans ceir - er enghraifft gellid gofyn i staff ddangos nad ydyn nhw'n gallu cerdded, beicio na chymryd trafnidiaeth gyhoeddus.

- Gofynnodd aelodau a fu gostyngiad yn nifer y teithiau ceir. Yn ôl swyddogion, mae'r ystadegau'n gadarnhaol a bod nifer y teithiau teithio llesol yn cynyddu ond bod y cwestiwn yn ymwneud â mwy i'r Papur Gwyn Trafnidiaeth.

- Gofynnodd y Pwyllgor am brosiect Rhwydwaith Economi Gylchol Caerdydd a sut y bydd effaith yr economi gylchol yn cael ei fesur. Dywedodd swyddogion fod hyn yn destun cyfrifiadau cymhleth. Yn ddelfrydol, mae angen i'r cyhoedd 'brynu'r pethau iawn' i ddechrau; eitemau y gellir eu hailddefnyddio neu eu hatgyweirio.

- Rhoddodd swyddogion fanylion Clwb Ceir Dinas a sut mae'n gweithredu. Cafodd aelodau wybod bod Clwb Ceir Dinas yn gweithio'n llwyddiannus. Mae'r Clwb Ceir yn cynnwys tua 20 o gerbydau ar hyn o bryd, ond mae'n bosib y bydd Dinas Ranbarth Caerdydd yn gobeithio ehangu'r ddarpariaeth a'r posibilrwydd o ddefnyddio cerbydau fflyd y Cyngor y tu allan i oriau busnes i ymestyn y ddarpariaeth.

- Gofynnodd aelodau a oedd mecanwaith mewn lle i brynu tir er mwyn plannu mwy o goed. Dywedodd swyddogion mai amcan Coed Caerdydd yw plannu coed ar dir sy’n eiddo i'r Cyngor, fodd bynnag, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro wedi cynnig tir ar safle Ysbyty Prifysgol Cymru gan ddweud y byddan nhw hefyd yn cynnal stiwardiaeth o unrhyw goed fydd yn cael eu plannu. Fe wnaeth swyddogion hefyd gadarnhau nad oes digon o dir ym mherchnogaeth y Cyngor i gyrraedd y targed o gynyddu canopi coed y ddinas gan 25%.

- Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar sut mae'r ôl troed carbon gan rywun sy'n gweithio gartref yn hytrach na'u bod yn cymudo i'r gwaith yn cael ei gyfrifo. Dywedodd swyddogion bod fframwaith adrodd gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i wneud y cyfrifiadau hynny. Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod y fframwaith adrodd yn defnyddio cyfartaleddau a rhagdybiaethau i wneud y cyfrifiadau hynny. Mae pob awdurdod lleol yn defnyddio'r un fframwaith.

- Gofynnwyd i swyddogion wneud sylw ar y newid sylweddol mewn canfyddiad y cyhoedd y bydd ei angen i gyflawni carbon sero net. Dywedodd swyddogion fod y mater hwn wedi'i nodi yn ystod cyfnod cynnar. Awgrymodd grŵp o brifysgolion lleol sy'n ffurfio canolfan ragoriaeth mewn newid a thrawsnewid cymdeithasol fod newid yn yr hinsawdd yn gysyniad mawr ac maent yn argymell mai'r ffordd orau o fynd i'r afael ag ymgysylltu â'r cyhoedd fyddai torri newid yn yr hinsawdd i lawr i bynciau 'mân' - fel teithio, gwastraff, ynni, ac ati. Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu eu strategaeth genedlaethol ar yr un llwybr.

- Nododd aelodau mai dim ond un ysgol newydd ei hadeiladu oedd â'r nod o fod yn sero-net. Gofynnodd yr aelodau pam nad oedd hyn yn ofynnol i bob ysgol newydd ei hadeiladu. Nododd swyddogion fod adeiladu ysgol sero net yn fwy costus ac felly roedd yr adeilad newydd di-garbon yn cael ei ddefnyddio fel prosiect 'braenaru' i lywio datblygiadau'r dyfodol. Roedd hefyd angen datrys materion fel storio ynni o baneli solar yn ystod yr haf pan fydd yr ysgol ar gau am gyfnodau hir. Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod Ystadau Strategol yn edrych ar gynllun i ôl-osod paneli solar lle bo hynny'n briodol. Mae'r dechnoleg hon yn esblygu'n gyflym ac efallai y bydd angen atebion penodol ar rai adeiladau.

- Nododd y Pwyllgor fod rhai datblygiadau mawr yn cael eu cynnig, h.y. newid trac beicio gyda felodrom a chanolfan gynadledda newydd i gymryd lle un sy'n bodoli eisoes.  Mae cynhyrchu a defnyddio concrit yn cynhyrchu allyriadau carbon sylweddol ac felly, cwestiynodd yr Aelodau p'un a ystyriwyd ôl-osod ac uwchraddio cyfleusterau presennol mewn ymdrech i leihau allyriadau.  Dywedodd swyddogion fod Strategaeth Ystadau wedi'i datblygu gyda'r bwriad o ôl-osod adeiladau'r Cyngor i fod yn fwy ynni-effeithlon.  Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cyllid ar gael ar ffurf benthyciad sy'n ad-daladwy o'r arbedion a gronnwyd.

- Gofynnodd yr aelodau a fydd gan allyriadau carbon fwy o bwysau na 'chost' mewn prosesau tendro yn y dyfodol.  Ymatebodd swyddogion y bydd allyriadau carbon yn dod yn ffactor gwerthuso fodd bynnag fe wnaethon nhw nodi nad yw'r gadwyn gyflenwi yn barod ar gyfer newidiadau ar raddfa fawr.  Ond mae'r Cyngor yn gweithio gyda chyflenwyr i'w paratoi ar gyfer y newidiadau hyn.

- Dywedodd swyddogion fod rhaglen i gynyddu nifer y mannau gwefru cerbydau ceir trydan yn y ddinas ar y gweill.  Mae cyfleusterau gwefru yn cael eu canolbwyntio mewn ardaloedd lle nad oes gan drigolion dreifiau na garejis yn bennaf.  Mae cynllun peilot hefyd yn edrych ar ddarparu cyfleusterau gwefru o byst lampau.

- Gofynnodd aelodau a gafodd staff y Cyngor gymhorthdal i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.  Cafodd aelodau wybod os yw staff yn defnyddio bws neu drên tra ar fusnes y Cyngor, yna mae'n bosib hawlio'r costau hynny yn ôl.
  Mae AD yn cynnig cymhellion i staff ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ac mae hynny'n cael ei adnewyddu ar hyn o bryd.

- Gofynnwyd i swyddogion wneud sylw ar sylwadau a dderbyniwyd gan Gyfeillion y Ddaear ac yn arbennig y sgoriau a roddwyd i'r Cyngor gan y wefan a gaiff ei chynnal gan Climate Emergency UK.  Croesawodd yr Aelod Cabinet y cerdyn sgorio a chynghorodd fod y sefydliad yn gobeithio aildrefnu eu sgorio i symud i ffwrdd o allyriadau'r Cyngor fel sefydliad tuag at yr ysgogiadau polisi sylweddol sydd gan y Cyngor ar gael a'i waith gyda'r cyhoedd i annog newid ymddygiad er mwyn lleihau allyriadau ar draws y ddinas gyfan.

- Nodwyd problemau o ran cyflenwi llawer o eitemau, oherwydd y galw neu faterion byd-eang.  Dywedodd swyddogion fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r problemau cyflenwi sy'n wynebu pob awdurdod lleol a'u bod yn ymchwilio i 'gaffael cenedlaethol' er mwyn creu mwy o bŵer prynu.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

49 : ADRODDIAD MONITRO ANSAWDD AER LLEOL, ADRODDIAD CYNNYDD BLYNYDDOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi gwybodaeth gefndirol i'r Aelodau i gynorthwyo craffu ar yr adroddiad i'r Cabinet ynglŷn ag Adroddiad Cynnydd Blynyddol Ansawdd Aer Lleol Cyngor Caerdydd a oedd i fod i gael ei ystyried gan y Cabinet. Roedd yr adroddiad yn rhoi cefndir a chrynodeb o'r prif faterion a nodwyd yn adroddiad y Cabinet.

Yn dilyn datganiad byr gan yr Aelod Cabinet Helen Picton, gwahoddwyd Pennaeth Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) a Jason Bale, Rheolwr Rhaglen Aer Glân i gyflwyno'r adroddiad.

Dechreuodd y Cadeirydd y drafodaeth ar yr eitem hon. Cafodd yr Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau. Mae'r drafodaeth hon wedi ei chrynhoi isod:

- Gofynnodd yr aelodau pa opsiynau oedd yn cael eu hystyried ar gyfer Stryd y Castell. Dywedwyd wrth yr aelodau fod monitro yn parhau ar sail y cynllun dros dro a gyflwynwyd cyn covid. Bydd canlyniadau'r monitro hwnnw'n llywio'r asesiad llawn a fydd yn cael ei ystyried gan y Cabinet maes o law.

- Gofynnodd aelodau am y wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno cynllun Tacsis Cerbydau Trydan Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd. Nododd yr aelodau, o'r 5 cerbyd oedd ar gael nad oedd yr un ohonynt yn gweithredu yn y ddinas. Dywedodd swyddogion fod costau'r cynllun, trwyddedu'r cerbydau ac ystod gyfyngedig y cerbydau yn gweithredu fel datgymhellion.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd hi'n bosibl gwneud y gwaith o fonitro amser real o ddata ansawdd aer ar gael yn gyhoeddus. Dywedodd swyddogion fod monitorau a ddefnyddir yn synhwyrydd cost isel ac nid oes ganddynt y swyddogaeth i lanlwytho data byw yn y cwmwl. Y bwriad o bosib yw darparu adroddiadau misol a data tueddiadau yn y dyfodol agos.

- Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o rai o'r derminoleg a ddefnyddir yn yr adroddiad monitro ansawdd aer.

- Fe gadarnhaodd swyddogion nad yw arogleuon sy'n achosi niwsans statudol yn dod o dan fonitro ansawdd aer.

- Mewn ymateb i gwestiwn dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n adrodd manylion unrhyw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd fel rhan o'r cynllun llwybrau mwy diogel i ysgolion yn ôl i'r Pwyllgor, yn enwedig yr effaith ar ddisgyblion anabl.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

## 50 : BUSNES Y PWYLLGOR

Rhoddodd y Prif Swyddog Craffu ddiweddariad ar ymatebion y Cabinet i argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

## 51 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim eitemau brys.

## 52 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhoddwyd gwybod i aelodau y byddai cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 12 Ionawr 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.45 pm